

Pwrpas a sail gyfreithiol ar gyfer prosesu

Rydyn ni'n prosesu'r wybodaeth hon er mwyn asesu'ch addasrwydd ar gyfer y rôl rydych chi wedi gwneud cais amdani.

Y sail gyfreithiol rydym yn dibynnu arni ar gyfer prosesu eich data personol yw Erthygl 6(1)(b) o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), sy'n ymwneud â phrosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni cytundeb neu weithredu ar eich cais, cyn ymrwymo i gytundeb. Y sail gyfreithiol rydym yn dibynnu arni i brosesu unrhyw wybodaeth a roddwch fel rhan o'ch cais, sef data categori arbennig, megis gwybodaeth iechyd, crefyddol neu ethnig, yw Erthygl 9(2)(b) o'r GDPR, sydd hefyd yn ymwneud â'n rhwymedigaethau mewn cyflogaeth a diogelu eich hawliau sylfaenol, ac Erthygl 9(2)(h) ar gyfer asesu eich gallu gwaith fel gweithiwr cyflogedig. Hefyd Atodlen 1 rhan 1(1) a (2)(a) a (b) o Ddeddf Diogelu Data 2018, sy'n ymwneud â phrosesu ar gyfer cyflogaeth, asesu eich gallu gweithredol a meddyaeth ataliol neu alwedigaethol.

Beth fyddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni?

Byddwn ni'n defnyddio'r holl wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni yn ystod y broses recriwtio i fwrw ymlaen â'ch cais gyda golwg ar gynnig cytundeb cyflogaeth i chi, neu er mwyn cyflawni gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol os oes angen.

Ni fyddwn ni'n rhannu'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni ag unrhyw drydydd parti ar gyfer dibenion marchnata.

Byddwn yn defnyddio'r manylion cyswllt a roddwch i ni er mwyn cysylltu â chi i fwrw ymlaen â'ch cais. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth arall a roddwch i ni yn ystod y broses recriwtio i asesu pa mor addas yr ydych ar gyfer y swydd yr ydych wedi ymgeisio amdani.

Pa wybodaeth ydyn ni'n gofyn amdani, a pham?

Dydyn ni ddim yn casglu mwy o wybodaeth nag sydd ei hangen arnom i gyflawni'n dibenion ac ni fyddwn yn ei chadw'n hirach nag sydd angen.

Defnyddir y wybodaeth rydyn ni'n gofyn amdani i asesu'ch addasrwydd ar gyfer y swydd. Nid oes rhaid i chi ddarparu'r wybodaeth y gofynnwn amdani, ond gall effeithio ar eich cais os na wnewch chi.

Y cam ymgeisio

Yn ystod y cam ymgeisio, byddwn yn gofyn i chi am eich manylion personol, gan gynnwys eich enw a'ch manylion cyswllt. Byddwn hefyd yn gofyn i chi am eich profiad blaenorol, addysg, geirdaon, ac atebion i gwestiynau sy'n berthnasol ar gyfer y rôl. Yn ystod y broses recriwtio, byddwn hefyd yn gofyn i chi am atebion i gwestiynau sy'n berthnasol i'r swydd yr ydych wedi ymgeisio amdani. Bydd gan ein Tîm Recriwtio a Dethol o Gwasanaethau Pobl a'n Huned Cymorth Busnes fynediad i'r holl wybodaeth hon.

Gofynnir hefyd i chi roi gwybodaeth am gyfle cyfartal. Nid yw'n orfodol i chi roi'r wybodaeth hon - os na wnewch chi hynny, ni fydd yn effeithio ar eich cais. Ni fydd yr wybodaeth ar gael i unrhyw staff y tu allan i'n tîm recriwtio, gan gynnwys y rheolwyr sy'n cyflogi, mewn unrhyw ffordd a allai ddangos pwy ydych. Yr unig ddefnydd a wneir o'r wybodaeth a ddarperir gennyh fydd er mwyn cynhyrchu a monitro ystadegau am gyfle cyfartal.

Llunio rhestr fer

Bydd ein rheolwyr yn llunio rhestr fer o'r rhai i'w cyfweld. Ni fyddant yn cael gwybod eich enw na'ch manylion cyswllt, ac ni fyddant yn cael unrhyw wybodaeth o ran cyfle cyfartal os byddwch wedi ei rhoi.

Asesiadau

Gallm ofyn i chi gymryd rhan mewn digwyddiadau asesu, cwblhau profion neu holiaduron proffil personoliaeth galwedigaethol, a/neu dod am gyfweliad - neu gyfuniad o'r rhain. Caiff gwybodaeth ei chynhyrchu gennym ni a gennych chi. Er enghraifft, efallai y byddwch wedi cwblhau prawf ysgrifenedig, neu efallai y byddwn yn cymryd nodiadau yn ystod y cyfweliad. Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn cadw'r wybodaeth hon.

Os fyddwch chi'n llwyddiannus yn ystod y broses ymgeisio ac yn dod i gael asesiad, mae'n rhaid i ni gadarnhau pwy ydych, yn ogystal â'ch hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig. Gan hynny, mae'n rhaid i chi ddarparu:

- Prawf o bwy ydych – gofynnir i chi ddod â dogfennau gwreiddiol i'n swyddfa er mwyn i ni wneud copïau ohonynt
- Prawf o'ch cymwysterau – gofynnir i chi ddod â dogfennau gwreiddiol i'n swyddfa er mwyn i ni wneud copïau ohonynt

Os fyddwch chi'n ymgeisydd wrth gefn ar ôl cael eich asesu ar gyfer y swydd, mae'n bosibl y byddwn ni'n gofyn i chi os hoffech i ni gadw'ch manylion yn ein cronfa dalent. Os fyddwch chi'n cytuno, byddwn ni'n cysylltu â chi os bydd gennym unrhyw swyddi gwag eraill sy'n addas ar eich cyfer yn ystod y chwe mis nesaf.

Cynnig amodol

Os byddwn yn gwneud cynnig cyflogaeth amodol, byddwn yn anfon ail ran y Ffurflen Gais atoch er mwyn i ni allu cynnal gwiriadau cyn cyflogi. Bydd yn rhaid i chi gwblhau gwiriadau cyn cyflogi yn llwyddiannus er mwyn symud ymlaen i gynnig terfynol o gyflogaeth gyda Heddlu Dyfed-Powys. Mae'n rhaid i chi gwblhau'r gwiriadau cyn cyflogi hyn yn llwyddiannus cyn y cewch gynnig terfynol.

Gan hynny, bydd angen i chi ddarparu'r manylion canlynol:

- Manylion llawn ar eich cyfer chi ac aelodau o'ch teulu
- Sefyllfa ariannol
- Euogfarnau a rhybuddion
- Erlyniadau ac ymchwiliadau troseddol
- Buddiannau busnes a thatŵs

Mae angen cliriad diogelwch lefel uwch ar gyfer rhai rolau – nodir hyn yn glir yn yr hysbyseb neu'r disgrifiad swydd (neu'r ddau).

Gofynnir am wybodaeth er mwyn galluogi'r Prif Gwnstabl i wireddu ei rwymedigaeth statudol i gynnal Heddlu effeithiol ac effeithlon. Er mwyn bodloni'r rhwymedigaeth hon, mae'n rhaid i ni sicrhau diogelwch ein staff a sicrhau bod y sawl sydd â mynediad at wybodaeth yr Heddlu yn ddibynadwy, ac yn annhebygol o dorri gofynion cyfrinachedd. Ni thresmasir ar hawliau'r unigolyn mewn perthynas â pharch tuag at fywyd teuluol - y Confensiwn Ewropeaidd ar lawnderau Erthygl 8, ac anffafiaeth CEID Erthygl 14, ond i'r graddau y bo hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur. Bydd amcanion cyfreithlon unrhyw

weithredu o'r fath yn cynnwys amddiffyn hawliau a rhyddid eraill, amddiffyn diogelwch y cyhoedd, atal anhrefn a throsedd ac, mewn rhai achosion, diogelwch cenedlaethol.

- Byddwn hefyd yn gofyn i chi gwblhau holiadur am eich iechyd er mwyn sefydlu eich ffitrwydd i weithio ac unrhyw addasiadau rhesymol sydd angen
- Byddwn yn cysylltu â'ch canolwyr yn uniongyrchol, gan ddefnyddio'r manylion a roddwch yn eich cais, er mwyn cael geirdaon

Os byddwn yn gwneud cynnig terfynol o gyflogaeth, byddwn hefyd yn gofyn i chi am y wybodaeth ganlynol ar ôl i chi dderbyn y cynnig:

- Manylion banc – er mwyn prosesu taliadau cyflog
- Manylion cyswllt mewn argyfwng – fel y byddwn yn gwybod â phwy y dylem gysylltu os bydd argyfwng yn y gwaith
- Manylion pensiwn

Ar ôl i chi gychwyn

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn dibynnu ar unplygrwydd a gonestrwydd ei swyddogion a'i staff a'i gyfrifoldebau o dan y Cod Moeseg a'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol. Fel gweision cyhoeddus, disgwylir i bob aelod staff ddilyn y safonau ymddygiad uchaf yn eu bywydau preifat ac yn eu gwaith, ac mae'n rhaid i'r gymuned gael yr hyder mwyaf yn Heddlu Dyfed-Powys.

Mae'n bwysig fod pob aelod staff yn rhoi gwybod i'r Heddlu am unrhyw newidiadau i'w manylion personol neu amgylchiadau.

Sut yr ydym yn gwneud penderfyniadau ynghylch recriwtio

Mae rheolwyr sy'n cyflogi ac aelodau o'r adran Gwasanaethau Pobl yn gwneud penderfyniadau terfynol ynghylch recriwtio yn seiliedig ar yr holl wybodaeth asesu.

Eich hawliau

Fel unigolyn, mae gennych hawliau penodol ynglŷn â'ch data personol eich hun.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'ch hawliau, cliciwch ar y tab "Mynediad at wybodaeth" ar ein tudalen gartref.

Ydyn ni'n defnyddio prosesyddion data?

Ydyn – rydyn ni'n defnyddio nifer o brosesyddion data fel rhan o'n prosesau recriwtio.

Cwmni Oleo sy'n gweithredu'n system ymgeisio ar-lein ac mae'n cynhyrchu gwybodaeth reoli ddiennw am ymgyrchoedd. Dyma ddolen i hysbysiad preifatrwydd Oleo:

https://static.wcn.co.uk/company/all_wales_police/privacystatement.html

Rydyn ni'n defnyddio cwmni SHL i weithredu profi ar-lein. Y ddolen i'w hysbysiad preifatrwydd yw: <https://www.shl.com/en/privacy>

Am ba mor hir fydd y wybodaeth yn cael ei chadw?

RECRIWTIO A DYRCHAFU		
Ffurflen gais	<p>Ilwyddiannus – hyd gwasanaeth + 6 mlynedd</p> <p>aflwyddiannus – 6 mis</p>	<p>Mae angen y cyfnod hirach oherwydd hawliadau gwahaniaethu posibl yn ogystal â phrawf o'r hyn a roddwyd ar y ffurflen.</p> <p>Mae 6 mis ar gyfer ymgeiswyr aflwyddiannus yn galluogi hawliad i driwlynlys cyflogaeth.</p>
Nodiadau cyfweliad	<p>Ilwyddiannus – hyd gwasanaeth + 6 mlynedd</p> <p>aflwyddiannus – 6 mis</p>	<p>Mae angen y cyfnod hirach oherwydd hawliadau gwahaniaethu posibl yn ogystal â phrawf o'r hyn a roddwyd ar y ffurflen.</p> <p>Mae 6 mis ar gyfer ymgeiswyr aflwyddiannus yn galluogi hawliad i driwlynlys cyflogaeth.</p>
Copi o gymwysterau	Hyd gwasanaeth + 6 mlynedd	Mae'n berthnasol ar gyfer prosesau dethol a chynllunio ar gyfer olyniaeth.
Cadarnhad o ffitrwydd adeg penodi	Hyd gwasanaeth + 6 mlynedd	Hawliadau sifil gael aelod staff neu deulu.
Cysylltiadau personol – perthynas agosaf ac ati	Hyd nes fyddwch wedi'ch disodli	
Ffurflen brawf/ymgynefino, gan gynnwys asesiad prawf swyddog/asesiad adeg dyrchafu	Hyd gwasanaeth + 6 mlynedd	Mae tystiolaeth o berfformiad yn ystod y cyfnod prawf (yn ogystal â hyfforddiant a chymorth a roddwyd) yn ofynnol fel pwynt cyfeirio ar gyfer unrhyw brosesau ymddygiad/perfformiad pellach a allai fod yn berthnasol ar gyfer yr unigolyn.
Ffurflen gwarchod data	Hyd gwasanaeth + 6 mlynedd	Tystiolaeth yn achos torri rheoliadau gwarchod data yn ystod gwasanaeth a allai arwain at gamau disgyblu, neu weithgareddau ar ôl gadael y sefydliad a allai arwain at ymchwiliad troseddol.
Cadarnhad o gliriad diogelwch	Hyd gwasanaeth + 6 mlynedd	Tystiolaethol.
Pecyn recriwtio cychwynnol	Hyd gwasanaeth + 6 mlynedd	Tystiolaeth o wybodaeth a roddwyd i aelod staff ar gychwyn ei swydd.